

Arwyr ac Anwresau Cymru Dewi Sant

DILYN
ŴL
TROED



 Cadw



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae ein stori ni wedi'i lleoli yng Nghymru yn y 6ed ganrif. Roedd yn oes pan oedd brenhinoedd Cymru'n rheoli teyrnasoedd bychain a'u pobl yn gwneud eu bywoliaeth drwy ffermio. Roedd y rhan fwyaf o bobl Cymru'n Gristnogion, ac roedd y mynachlogydd yn ganolfannau pwysig ar gyfer gweddio a dysgu. Mae stori Dewi Sant wedi cael ei throsglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth dros y canrifoedd, felly mae'r llinell rhwng ffaith hanesyddol, myth a chwedl yn aneglur ...

Dewi Sant

Nawddsant Cymru



Dewi Sant, Nawddsant Cymru

Roedd Dewi Sant yn fynach a oedd yn lledaenu neges Cristnogaeth ac yn annog ei ddilynwyr i ofalu am fyd natur. Yn ôl y sôn, cyflawnodd sawl gwyrth, a'r enwocaf ohonynt oedd pan gododd bryncyn o dan ei draed fel bod y tyrfaoedd yn gallu ei glywed yn pregethu. Erbyn y 12fed ganrif, roedd mwy na 60 o eglwysi yng Nghymru wedi cael eu cysegru iddo.

Daeth Dewi Sant yn nawddsant Cymru. Mae pobl yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi ar 1 Mawrth gyda gorymdeithiau, cyngherddau a digwyddiadau eraill, ac yn aml iawn maent yn gwisgo cennin a chennin Pedr, sef symbolau traddodiadol Cymru.

Geni sant

Credir i Dewi gael ei eni tua'r flwyddyn 520. Yn ôl y sôn, cafodd ei eni ar y clogwyni mewn storm wyllt o felt a tharanau, ger y ddinas sydd wedi'i henwi ar ei ôl erbyn hyn. Cred rhai bod Dewi yn fab i Sanctws, brenin Ceredigion, a lleian o'r enw Non.

Bywyd mynach

Fel gŵr ifanc, daeth Dewi yn fynach. Tua'r flwyddyn 550, sefydlodd fynachlog yn agos at y fan ble cafodd ei eni. Yno, roedd ef a'r mynachod eraill yn byw bywyd syml iawn, gan yfed dim byd ond dŵr a bwyta dim byd ond bara a pherlysiau. Roedd cig a chwrw'n cael eu gwahardd. Daeth Dewi i gael ei adnabod fel Dewi Dyfrwr.

Roedd y mynachod yn ffermio'r tir, ond mynnai Dewi eu bod yn tynnu'r aradr ac yn cario eu hoffer heb help anifeiliaid. Roeddent yn treulio'r gyda'r nosau'n gweddio, yn darllen ac yn ysgrifennu ac nid oeddent yn cael unrhyw eiddo personol.

Deffro'r meirw a symud mynyddoedd

Ceir llawer o straeon am wyrthiau Dewi Sant. Maent yn cynnwys dod â bachgen bach marw yn ôl yn fyw drwy dasgu dagrau ar wyneb y plentyn, ac adfer golwg dyn dall.

Digwyddodd gwyrth enwocaf Dewi ym mhentref Llanddewi Brefi. Roedd yn pregethu i dyrfa fawr ond roedd rhai pobl yn cael anhawster ei glywed. Yn sydyn, glaniodd colomen wen ar ysgwydd Dewi ac, wrth iddi wneud hynny, cododd y tir o dan ei draed i ffurfio bryncyn bychan, ac felly roedd yn bosib i bawb ei weld a'i glywed. Heddiw, mae eglwys wedi'i chodi ar ben y bryncyn yma.



Mae pobl yn gwisgo cennin pedr a chennin ar 1 Mawrth i dathlu Dydd Gŵyl Dewi



Mae Tyddewi yn denu pererinion



Eglwys Gadeiriol Tyddewi



Dehongliad newydd yn Llys yr Esgob, Tyddewi



Tu mewn ysblennydd Eglwys Gadeiriol Dewi Sant

Daeth y golomen yn emblem Dewi Sant ac mae'n ymddangos yn aml ar ei bortreadau ac ar ffenestri gwydr lliw.

Enw da ar hyd ac ar led

Mae eglwysi a chapeli sydd wedi'u cysegru i Dewi i'w canfod nid yn unig yng Nghymru ond hefyd yn ne orllewin Lloegr ac yn Llydaw. Cyrhaeddodd dylanwad Dewi Iwerddon hefyd, ble croesawodd y Gwyddelod ei gredoau am ofalu am fyd natur.

Geiriau olaf Dewi wrth ei ddilynwyr oedd 'gwnewch y pethau bychain, y pethau bychain yr ydych wedi fy ngweld i yn eu gwneud'. Mae'r geiriau hyn yn dal i ysbrydoli llawer o bobl heddiw.

Mwy o enwogrwydd ar ôl ei farwolaeth

Credir fod Dewi Sant wedi marw ar 1 Mawrth 589. Bum can mlynedd yn ddiweddarach, cafodd ei fywgraffiad cyntaf ei ysgrifennu gan Rhygyfarch o Lanbadarn. Wrth i'w boblogrwydd dyfu, ysgrifennwyd cerddi a chaneuon amdano. Ymwelai pererinion â'i fynachlog yn Nhyddewi ac adeiladwyd cysegrfan er anrhydedd iddo.

Dilyn ôl troed

Nawr eich bod wedi darllen am Dewi Sant, beth am fynd i weld y manau sanctaidd sy'n gefndir i'w hanes?



Cerflun o Dewi Sant yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd

Eglwys Gadeiriol Tyddewi a Llys yr Esgob

Sefydlodd Dewi Sant fynachlog, yn agos at ble mae'r eglwys gadeiriol i'w gweld heddiw fwy na thebyg. Daeth yr eglwys gadeiriol, a adeiladwyd yn ei enw, yn un o'r cysegrfannau pwysicaf yn y byd Cristnogol canoloesol. Yn y 12fed ganrif, cyhoeddodd y pab bod dwy bererindod i Dyddewi'n cyfateb i un i Rufain.

Adeiladwyd Llys yr Esgob fel rydych chi'n ei weld heddiw yn y 1300au yn bennaf. Yn gwbl wahanol i fywyd syml Dewi Sant a'i fynachod, roedd yr esgobion yn byw yn y llys crand ble'r oeddent yn gwledda ac yn diddanu uchelwyr a brenhinoedd.

- Ewch am dro i'r eglwys gadeiriol ac i gysegrfan Dewi Sant. Dychmygwch y pererinion a gerddai i'r llecyn sanctaidd hwn ar siwrneiau maith, i geisio iachâd ysbrydol.
- Archwiliwch adfail Llys yr Esgob. Sylwch ar yr addurniadau helaeth a'r gwaith carreg crand, sy'n dangos pa mor gyfoethog oedd yr esgobion.
- Ceisiwch weld cynhyrchiad theatr awyr agored yma – pan fydd yr adfail rhamantus yn dod yn fyw gyda drama a cherddoriaeth.



Capel Non

Capel Non, Tyddewi

Dywedwyd bod y capel wedi'i leoli ar y llecyn ble ganed Dewi, ac wedi'i gysegru i'w fam, Non. Mae'r adfail yn edrych dros arfordir dramatig Sir Benfro.

- Dychmygwch eich bod wedi mynd yn ôl 1,500 o flynyddoedd i'r adeg pan aned Dewi yn y fan yma mewn storm wyllt o fellt a tharanau.
- Yn ôl y sôn roedd nodweddion iachau'n perthyn i'r ffynnon sanctaidd sy'n agos at y capel. Tafwch ddam arian i mewn iddi am lwc dda.



Castell Llanhuadain

Llys yr Esgob Llandyfái

Fel Llys yr Esgob yn Nhyddewi, adeiladwyd hwn ar raddfa fawr a chrand gan yr eglwys ganoloesol gyfoethog. Roedd yn 'lle i enaid gael llonydd' i esgobion Tyddewi, i ddianc rhag holl bwysau bywyd yr eglwys a'r wladwriaeth.

- Ymunwch â thaith o amgylch yr adfail yn y gwyll, gan gadw llygad am fywyd gwyllt y nos. Bydd yr arbenigwyr yn gallu dangos tystiolaeth o foch daear, ystumod, dyfrgwn ac adar i chi – neu efallai y byddwch yn ddigon ffodus i'w gweld.

Castell Llanhuadain

Adeiladwyd Castell Llanhuadain gan esgobion Tyddewi er mwyn gwneud sioe o'u grym a'u cyfoeth mawr. Mae'r adfail trawiadol i'w weld ar ben bryn sydd â golygfeydd godidog i lawr dros gefn gwlad yr ardal.

Ewch i www.cadw.cymru.gov.uk i ddarganfod mwy am y safleoedd